



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Ariennir drwy'r rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori o dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020

Stuart Hammond

Portiwgal

System ddwys o Gynhyrchu Biff/Biff o fuchesi llaeth
Ionawr 27-29 2020

1 Cefndir

Rydym wedi bod yn pesgi gwartheg ar contract i Dunbia ers pedair blynedd bellach ac mae proffidoldeb bob amser wedi achosi rhywfaint o bryder. Y prif ffactor am hyn yw ein gallu i sicrhau'r cynnydd o 1.5kg mewn pwysau byw dyddiol (DLWG) sy'n angenrheidiol i sicrhau'r ffordd rataf i roi pwysau ymlaen er mwyn gwneud elw.

Ar hyn o bryd rydym yn pesgi 400 o fustych Holstein-Friesian du a gwyn bob blwyddyn i Dunbia. Pan maent yn cyrraedd yma oddi wrth ffermwyr penodol maent tua 180kg o bwysau byw. Ein nod yw pesgi'r anifeiliaid hyn nes eu bod yn 600kg o bwysau byw ar ôl 280 diwrnod ar borthiant. Caiff y lloi eu brechu'n llawn ar gyfer clefydau anadlol wrth iddynt gyrraedd ac maent yn dilyn rhaglen borthi benodol Dunbia. I roi'r pwysigrwydd o sicrhau perfformiad da mewn persbectif, bydd 100g yn llai o dwf y diwrnod yn arwain at ostyngiad o tua £60 yn ein helw. Gyda 400 o wartheg, mae hyn yn cyfateb i £24,000 yn llai bob blwyddyn ar y fantolen i gychwyn.

Mae Dunbia yn defnyddio cwmni o'r enw Inzar sy'n darparu'r holl borthiant wedi'i gymysgu ymlaen llaw ac yn cynhyrchu'r holl ddietau. Fel busnes, rydym bob amser wedi herio gallu'r gwartheg i gyrraedd y cyfraddau twf yr anelir atynt ac mae Dunbia wastad wedi honni bod ffermydd yn Sbaen a Phortiwgal yn cyflawni hyn yn gyson.


Nod y gyfnewidfa rheolaeth oedd teithio i Bortiwgal i weld sut oedd system rheoli'r gwartheg yn gweithio o ddydd i ddydd a sut yr oedd eu dietau'n cael eu paratoi, a hyd yn oed sut yr oedd y gwartheg yn cael eu porthi i wneud cynnydd o 1.5kg mewn pwysau byw dyddiol.



2 Y Daith

Fferm 1

Ar y diwrnod cyntaf, bùm yn ymweld â fferm yn rhanbarth Alfeizerao ym Mhortiwal. Roedd y fferm yn gallu cadw 800 o wartheg. Gwartheg cyfandirol croes oedd y rhain i gyd ac roedden nhw'n cael eu porthi'n unol â phrotocolau penodol Inzar. Roedd y fferm arbennig hon yn defnyddio porthiant wedi'i gymysgu ymlaen llaw gan Inzar o'r enw Integralfeed. Roedd y porthiant hwn yn golygu bod modd porthi holl wartheg y fferm ar ddieta grawnfwyd yn unig, heb unrhyw borthiant arall, dim hyd yn oed gwellt. Prif ffocws y drefn hon oedd sicrhau rwmen iach drwy wneud yn siŵr bod gan anifeiliaid fnyediad i borthiant ffres bob amser.



Ffigur 1. Taflen ddata porthiant IntegralFeed 2 Inzar

Y prif resymau am hyn oedd bod tyfu porthiant ym Mhortiwalgal yn gostus iawn oherwydd yr hinsawdd a hefyd, llai o angen am adeiladwaith mewn storffeydd porthiant. At hynny, roedd y ffaith bod llai o borthiant yn cael ei ddefnyddio'n golygu bod llai o angen am beiriannau, ac felly, roedd y costau cyffredinol yn is.

Roedd y fferm arbennig hon yn cadw 800 o wartheg ar unrhyw un adeg ac ar wahân i felin borthi o'r radd flaenaf, yr unig beiriant arall oedd peiriant codi telesgopig a bwced 'auger'. Roedd yr holl wartheg yn cael eu porthi mewn llai nag awr. Charolais a Limousin oedd y prif fridiau, gydag ychydig o wartheg Angus a gwartheg brodorol o Ynysoedd yr Azore. Daw'r gwartheg yma pan maent tua 8 mis oed ac yn pwyso 350kg a chânt eu lladd tua 14/15 mis oed yn pwyso 650kg. Cedwir yr holl wartheg fel teirw yn y system gynhyrchu hon.



Ffigur 2. Gwartheg ar y fferm yn rhanbarth Alfeizerao

Ceir manylion diet pesgi IntegralFeed yn Nhabl 1 isod gyda chyfraddau cynnwys wedi'u mynegi fel g/kg. Bydd gwartheg yn bwyta 10kg/y diwrnod o borthiant y pen ar gyfartaledd yn ystod eu hamser ar y fferm.

Cynnwys	g/kg
Haidd	458
India corn	200
Soia Diblisg	121
Isgynnyrch Distyllu India corn	136
Codennau Ceirch	35
Braster	10
Cynhwysion Allweddol	40

Tabl 1. Diet pesgi IntegralFeed



Ffigur 3. Porthiant IntegralFeed wedi'i gymysgu ymlaen llaw

Roedd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) y fferm yn ymwneud â pherfformiad a chost ac ystyrid bod iechyd yn dda. Dangoswyd bod y diet dwysfwyd yn unig yn cynyddu'r ganran lladd allan o 2%, yn bennaf oherwydd bod dognau llai o borthiant yn eu perfedd.

DPA	
% lladd allan	60-61%
Pwysau byw adeg eu lladd	650kg
Oed adeg eu lladd	<16 mis
DLWG	Cyfandirrol – 1.50kg / d Angus – 1.65kg / d
Cost diet	230 Ewro / t
Gwellt (gwasarn)	100 Ewro / t

Tabl 2. Dangosyddion Perfformiad Allweddol Fferm 1



Ffigur 4. Y felin arbenigol ar Fferm 1. Defnyddir yr hopys bach i ychwanegu cynhwysion allweddol eraill at y gymysgedd.

Fferm 2

Roedd yr ail fferm y bûm yn ymweld â hi yn rhanbarth Torres Novas.

Roedd y fferm hon yn pesgi 8,000 o deirw Holstein-Friesian du a gwyn y flwyddyn ar nifer o safleoedd. Ar y safle y bûm i'n ymweld ag ef roedd 1,500 o deirw. Roedd gan bob corlan gyflenwad o borthiant drwy bibell 'auger' yn rhedeg drwy'r canol o'r felin, yn llenwi hoprannau fel oedd angen. Yr unig beiriant gwirioneddol ar y fferm oedd bobcat a gâi ei defnyddio i lanhau'r corlannau a llenwi'r cafnau dal gwellt.

Roedd teirw ar y fferm hon yn cael eu cadw mewn corlannau o 50. Roedd y gwartheg ar y fferm hon yn ennill 1.5kg o bwysau byw dyddiol ar gyfartaledd. Roedd pwysau eu carcasu yn 200kg yn 9 mis oed.



Ffigur 5. Teirw Holstein-Friesian yn Fferm 2

Câi corlannau o wartheg eu neilltuo ar gyfer eu lladd fesul dwy neu dair lot cyn i'r gorlan gael ei chlirio. Doedd corlannau gwartheg byth yn cael eu cymysgu gan y byddai hyn yn amharu ar safle cymdeithasol o fewn y corlannau. Unwaith y bydd gwartheg yn cael eu cymysgu, gall gymryd hyd at dair wythnos iddynt adennill eu safle cymdeithasol mewn corlan ac i adennill eu pwysau byw. Os gwneir hyn tua diwedd cyfnod pesgi, gall arwain at wahaniaeth rhwng elw a cholled. Roedd lloï a fagwyd yn cyrraedd y fferm yn pwyso tua 160kg. Roedden nhw ar y fferm am tua 150 diwrnod. Y bwriad oedd lladd ar ôl 280 diwrnod yn pwyso 400kg. Roedd yn well o lawer gan y ffermwyr y drefn hon oherwydd effeithlonrwydd o ran trosi porthiant.

Doedd yr un o'r ffermydd y buom yn ymweld â nhw'n rhoi unrhyw borthiant gwyrdd i'w stoc. Er mwyn sicrhau'r cynnydd uwch hwn mewn pwysau byw, mae angen i gysondeb y diet fod yn fanwl gywir bob dydd. Gall hyn fod yn anodd iawn i'w gyflawni wrth roi porthiant i stoc. Mae caeau'n gallu amrywio. Gall lefel y porthiant mae'r stoc yn ei fwyta hefyd fod yn broblem weithiau. Mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ar gost elw, nid cost y diet.

3 Camau Nesaf

Un o'r pethau pwysicaf a ddysgais oedd cadw systemau'n syml. Roedd yr ail fferm y buom yn ymweld â hi yn porthi 1,500 o deirw heb fawr mwy na bobcat. Ym mhob corlan roedd 'auger' yn y canol yn gollwng y porthiant i hopran fel oedd angen. Câi'r bobcat ei ddefnyddio i lenwi'r cafnau â gwellt i'r gwartheg ei fwyta. Mae costau sefydlog yn aml yn cael eu diystyru ond gallant gael effaith enfawr ar broffidioldeb busnes.

Mae angen i ni hefyd edrych ar ansawdd dŵr a bio ffilm yn y tanciau. Gall yr holl fân ffactorau hyn gael effaith ar berfformiad gwartheg. Yn y fferm gyntaf y buom yn ymweld â hi roedd problem â dŵr a oedd yn achosi colledion.

Gyda phris gwellt yn cynyddu ar hyn o bryd gallai'r cyfle i newid i system Integralfeed fod yn fonws mawr. Byddai hefyd yn cyflymu'r broses borthi i ni gan y byddai'n arbed gorfod porthi unwaith y dydd a hefyd yr amser a dreulir yn gwthio gwellt yn ôl i wartheg ac yn ei dorri.

Does yna'r un ffactor unigol a fydd yn gwella perfformiad, mae'n fater o wneud llawer o welliannau i gynifer o bethau ag y gallwch eu rheoli, gwnewch welliannau parhaus ac fel yr arferai Tîm Sky ei ddweud "gwnewch yr olwynion yn fwy crwn".

Mae heriau a chyfleoedd lle bynnag yr ydych yn y byd. Roedd yr aer yn sicr yn sychach ym Mhortiwigal sy'n well i'r gwartheg gan nad yw'n cario pathogenau fel y mae'n ei wneud yma yng Nghymru. Ond does dim rhaid i'n gwartheg ni yma ymdopi â'r gwres llethol y mae'n rhaid iddyn nhw ddelio ag ef yn yr haf, sy'n gallu lleihau perfformiad.

4 Prif Negeseuon i'r diwydiant

1. Mae ansawdd y lloi'n hollbwysig. Mae angen iddynt fod wedi'u bridio'n dda a'u bod wedi cael digon o golostrwm.
2. Mae'r broses fagu yn hanfodol. Mae angen i loi gychwyn ar borthiant a mynd oddi ar laeth cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau'r llwyth pathogen yn y perfedd.
3. Rhaid sicrhau statws iechyd uchel i'r lloi ar y cyd â rhaglen frechu gynhwysfawr.
4. Rhaid cael cysylltiad drwy'r broses gyfan fel y gellir rhannu gwybodaeth a data er mwyn gwneud penderfyniadau gwell.
5. Pan fydd lloi'n symud o'r cyfnod magu i besgi, mae'n hanfodol nad oes unrhyw straen maethol. Yn ddelfrydol, dylen nhw gael yr un diet am fis ar ôl y trosglwyddo a chyflwyno'r newid i'r diet newydd yn raddol.
6. Nid yw system awyru drwy simneiau yn gweithio'n effeithiol. Ydi, mae aer poeth yn codi ond nid yw'r da byw yn cael awyr iach yn ddigon cyflym nac ar y lefel gywir. Dylid newid yr aer yn y sied bob 5 munud fel nad yw'r system imiwnedd gwartheg yn cael ei herio os ydynt yn anadlu aer o ansawdd gwael.

7. Mae ansawdd y cynhwysion unigol yn y porthiant yn hollbwysig. Bydd amrywio o lwyth i lwyth yn cael effaith ar y gwartheg a bydd yn amharu ar gyfraddau twf.
8. Fel ffermwyr bïff, mae angen i ni ddod yn dechnegol well. Allwn ni ddim rheoli'r pris, ond fel y gwelwn, gall perfformiad gael effaith fawr ar broffidoldeb. Efallai fod gennym bris uchel, ond os ydym yn aneffeithlon, fyddwn ni'n dal ddim yn gwneud elw.